Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Cynghorau Cymuned & Thref
# Canllawiau Digidol

## Ystyriaethau Diogelu Data

Mawrth 2025

# Cynnwys

Rhagarweiniad ........ 3

Manteision ........ 3

Cydymffurfiaeth Gyfreithiol ........ 3

Gwella Ymddiriedaeth ac Enw Da ........ 3

Lliniaru Risgiau ........ 3

Hawliau Goddrychau Data ........ 4

Gwella Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant ........ 4

Prif Dermau a Chysyniadau Diogelu Data ........ 4

1. Data Personol ........ 4

2. Prosesu Data ........ 4

3. Rheolydd Data ........ 4

4. Prosesydd Data ........ 4

5. Cydsyniad ........ 4

6. Hawliau Goddrychau Data ........ 5

7. Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA) ........ 5

8. Tor Diogelwch Data ........ 5

9. Swyddog Diogelu Data (DPO) ........ 5

10. Preifatrwydd trwy Fwriad a Rhagosod ........ 5

Crynodeb o GDPR y DU ........ 5

Hawliau Allweddol ........ 5

Hanes y Fersiwn ........ 6

# Rhagarweiniad

Dylai Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru ddefnyddio dulliau diogelu data cadarn i gadw gwybodaeth yn breifat a diogel. Mae diogelu data yn cynnwys arferion a rheolau i ddiogelu data personol a sicrhau hawliau preifatrwydd.

Mae polisi diogelu data cadarn yn hanfodol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Mae'n darparu system ar gyfer trin data yn gyfrifol ac mae'n helpu sefydlu ymddiriedaeth barhaol. Mae'n sicrhau hefyd bod Cynghorau yn cydymffurfio â deddfau perthnasol megis Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU, a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r deddfau hyn yn gosod rheolau llym ar sut i gasglu, defnyddio, storio, a rhannu data personol, ac mae cosbau am beidio cydymffurfio.

Ymhlith prif agweddau deddfau diogelu data yn y DU mae tryloywder wrth ddefnyddio data personol a sicrhau ei ddiogelwch. Mae angen i gynghorau ddefnyddio dulliau technegol addas a hyfforddi staff yn rheolaidd ar ddiogelu data.

# Manteision

Gall Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru elwa mewn sawl ffordd trwy gyflwyno polisi diogelu data cadarn. Mae'r manteision hyn yn cynnwys agweddau cyfreithiol, gweithredol, ac o ran enw da, ac yn sicrhau bod Cynghorau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ond hefyd yn meithrin ymddiriedaeth ac effeithlonrwydd yn eu gwaith.

## Cydymffurfiaeth Gyfreithiol

Un o'r prif fanteision yw sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Trwy gadw at y rheoliadau hyn, gall Cynghorau osgoi cosbau sylweddol a goblygiadau cyfreithiol yn ymwneud â thor diogelwch data ac anghydymffurfiaeth. Mae'r aliniad rheoleiddiol hwn yn gymorth pellach i wella'r perthnasoedd gyda chyrff rheoleiddio a chryfhau llywodraethiant yn gyffredinol.

## Gwella Ymddiriedaeth ac Enw Da

Mae polisi diogelu data sydd wedi'i esbonio'n dda yn dangos i'r gymuned fod y cyngor wedi ymrwymo i ddiogelu gwybodaeth bersonol. Mae'r ymrwymiad hwn yn meithrin ymddiriedaeth ymhlith trigolion a budd-ddeiliaid, ac yn atgyfnerthu enw da'r cyngor yn gorff dibynadwy a thryloyw. Mae ymddiriedaeth yn hollbwysig er mwyn cynnal perthnasoedd da â'r gymuned a sicrhau bod pobl yn chwarae rhan lawn yng nghynlluniau'r cyngor.

## Lliniaru Risgiau

Mae polisi diogelu data cynhwysfawr yn helpu adnabod a lliniaru risgiau posib sydd ynghlwm wrth drin a phrosesu data. Trwy gynnal Asesiadau Effaith Diogelu Data

rheolaidd, gall Cynghorau fynd ati i roi sylw i wendidau a chymryd rhagofalon angenrheidiol i ddiogelu data personol rhag toramodau neu ddefnydd anawdurdodedig.

### Hawliau Goddrychau Data

Mae polisi cadarn yn sicrhau hawliau unigolion, megis bod yr hawl i weld, cywiro, a dileu eu data, yn cael eu parchu. Mae hyn nid yn unig yn gyson â gofynion cyfreithiol ond mae hefyd yn dangos fod y cyngor yn benderfynol o barchu a diogelu gwybodaeth bersonol eu hetholwyr.

### Gwella Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant

Mae datblygu a chynnal polisi diogelu data yn galw am hyfforddiant staff parhaus a rhaglenni ymwybyddiaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn gofalu fod holl aelodau'r cyngor yn wybodus am egwyddorion ac arferion diogelu data, ac yn meithrin diwylliant o breifatrwydd a diogeledd data yn y sefydliad.

## Prif Dermau a Chysyniadau Diogelu Data

### 1. Data Personol

Mae data personol yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth ynghylch person adnabyddadwy y gellid eu hadnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys enwau, cyfeiriadau e-bost, rhifau adnabod, data lleoliad a dynodyddion ar-lein.

### 2. Prosesu Data

Mae prosesu yn cynnwys unrhyw weithred neu gasgliad o weithredoedd a gyflawnir ar ddata personol. Mae hyn yn cynnwys casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, diwygio, atgeisio, ymgynghori, defnyddio, datgelu, rhannu, alinio, cyfuno, cyfyngu, dileu, neu ddinistrio data.

### 3. Rheolydd Data

Mae rheolydd data yn berson, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth, neu gorff arall sy'n penderfynu pwrpasau a dulliau prosesu data personol. Maent yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfau diogelu data.

### 4. Prosesydd Data

Mae prosesydd data yn berson, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth, neu gorff arall sy'n prosesu data personol ar ran y rheolydd. Mae'n rhaid iddynt weithredu ar gyfarwyddiadau cofnodedig y rheolydd a chymryd camau diogeledd priodol.

### 5. Cydsyniad

Mae cydsyniad yn golygu unrhyw arwydd penodol, gwybodus, a diamwys a roddir yn rhydd o ddymuniadau'r goddrych data sy'n golygu eu bod, trwy ddatganiad neu weithred gadarnhaol glir, yn datgan eu bod yn cytuno y gellir prosesu eu data personol.

### 6. Hawliau Goddrychau Data

Mae gan oddrychau data nifer o hawliau o dan y GDPR, gan gynnwys yr hawl i gael gweld eu data, yr hawl i gywiro, yr hawl i ddileu (a elwir hefyd yr hawl i gael eu hanghofio), yr hawl i gyfyngu prosesu, yr hawl i symudedd data, a'r hawl i wrthwynebu prosesu.

### 7. Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA)

Mae DPIA yn broses i helpu adnabod a lleihau risgiau diogelu data prosiect. Mae ei angen mewn sefyllfaoedd lle y mae prosesu data yn debygol o arwain at risgiau uchel i hawliau diogelu data unigolion. Mae'n rhaid i gynghorau cymuned gynnal DPIA ar gyfer prosiectau sy'n debygol o arwain at risgiau uchel i hawliau diogelu data unigolion. Mae DPIA yn helpu adnabod a lleihau risgiau diogelu data.

### 8. Tor Diogelwch Data

Mae tor diogelwch data yn ddigwyddiad diogeledd sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu heb awdurdod, neu fynediad at ddata personol, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon, sy'n cael ei ddanfon, storio, neu ei brosesu mewn rhyw ffordd arall. Dylai fod gan gynghorau cymuned weithdrefnau i ymdrin â thor diogelwch data yn brydlon ac effeithiol.

### 9. Swyddog Diogelu Data (DPO)

Mae DPO yn unigolyn a benodir i sicrhau bod sefydliad yn cydymffurfio â'r deddfau sy'n diogelu data unigolyn. Maent yn gyfrifol am oruchwylio'r strategaeth diogelu data a'r ffordd y caiff ei gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion GDPR.

### 10. Preifatrwydd trwy Fwriad a Rhagosod

Mae'r cysyniad hwn yn golygu fod rhaid cynnwys diogelu data o'r cychwyn wrth ddylunio systemau, yn hytrach na bod yn ychwanegiad. Mae'n sicrhau bod diogelu data yn rhan annatod o ddatblygu prosesau busnes ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau.

## Crynodeb o GDPR y DU

Mae fframwaith Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU yn darparu casgliad cadarn o ofynion ar gyfer Cynghorau cymuned yng Nghymru er mwyn diogelu data personol unigolion. Rhaid i gynghorau cymuned gadw at nifer o egwyddorion a hawliau sylfaenol o dan GDPR i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

## Hawliau Allweddol

Mae'n rhaid i gynghorau cymuned barchu a hwyluso hawliau goddrychau data, sy'n cynnwys:

- Yr hawl i gael gweld eu data
- Yr hawl i gywiro unrhyw anghywirdebau
- Yr hawl i ddileu, a elwir hefyd yr hawl i gael eu hanghofio
- Yr hawl i gyfyngu prosesu eu data
- Yr hawl i symudedd data
- Yr hawl i wrthwynebu prosesu data

Gall aelodau Un Llais Cymru droi at adnoddau ar faterion data, gan gynnwys canllawiau ar GDPR a model dempledi ar gyfer ceisiadau gweld data, er mwyn eu cefnogi i gydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

## Hanes y Fersiwn

| | Dyddiad | Cyhoeddwr | Rheswm | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| V1 | 13/03/25 | Justin Horrell | Fersiwn Wreiddiol | 13/03/25 |

Ariennir gan
**Llywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**